# Cofnodion 10fed Cyfarfod Dŵr Croyw Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru (WBAP)

Cynhaliwyd yn Nhŷ Ladywell, y Drenewydd am 10.30am ddydd Iau 7fed Mawrth 2013

**Yn bresennol:**
Tristan Hatton-Ellis (THE) Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
Huw Jones (HJ) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)
Janet Buckles (JB) AAC
Anna Bransdon (AB) Pond Conservation
Dai Roberts (DR)
Helen Cariss (HC)
Emma Guy (EG)

**Ymddiheuriadau:**
Adrian Lloyd Jones (ALlJ)
Robin Woodyatt
Steve Ormerod
Stuart Moodie
Dusi Thomas (DT)

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Mae **A LlJ** wedi cylchredeg y cofnodion ar gyfer Cynhadledd Rhywogaethau Goresgynnol Tramor 2012.
Nid yw'r mapiau Cynefinoedd â Blaenoriaeth wedi eu creu eto.
Nid yw'r papur Ynni Dŵr wedi cael ei gylchredeg gan **THE** eto.
Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu ynghylch Asedau Dŵr Cymru gan **DT.**

## 3. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Mae cylch gorchwyl y tri sefydliad yn cynnwys:
Tir/dŵr/awyr
Rheoleiddio
Rheoli
Monitro
Masnachol (Comisiwn Coedwigaeth Cymru)

- Mae'n debygol na fydd llawer o newidiadau i ddechrau.
- Ni fydd y gynrychiolaeth ar y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw yn newid ar hyn o bryd, ond bydd angen mwy o fewnbwn allanol gan gyrff statudol eraill e.e. Ymddiriedolaethau Afonydd. Nid oes Cynrychiolydd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol newydd, ond bydd EG yn rhoi gwybod i'r Cynlluniau am unrhyw ddatblygiadau.
- Mae diffyg gwybodaeth ynglŷn ag CNC ar y wefan Partneriaid Bioamrywiaeth.

- Mae'r is-adrannau rhanbarthol arfaethedig wedi cael eu cylchredeg, gyda thair ardal yn y De a dwy yn y Gogledd. Ni fydd yr is-adrannau'n cael eu seilio ar ddalgylchoedd.
- Bydd cyfeiriadur o wasanaethau cenedlaethol ar gael, e.e. bydd trwyddedau pysgota â gwialen yn cael eu gweithredu trwy gontract gan Asiantaeth yr Amgylchedd hyd nes bydd y contract gyda Swyddfa'r Post yn dod i ben ymhen dwy flynedd.
- Gallai cymhlethdodau trawsffiniol godi e.e. gallai fod angen trwyddedau ar wahân ar bysgotwyr ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Gallai fod pwyslais cryf ar wasanaethau ecosystem, gan roi'r gorau o bosib i gadwraeth rhywogaethau.  Gallai hyn achosi pryder ynglŷn â rhywogaethau y tu allan i safleoedd a warchodir.
- Mae'n bosib mai mapio gwasanaethau ecosystem lleol fydd ein rôl newydd ni.

**4. Cyfarfod Cadeiryddion Ecosystemau (HJ)**

Rhai o'r pynciau a drafodwyd:

- Cylch Gorchwyl
- Rhywogaethau goresgynnol tramor
- Integreiddio ar lefel Prydain Fawr
- Y broses o fwydo strategaeth Prydain Fawr i mewn i Gymru, gan ddefnyddio Gogledd Iwerddon fel esiampl.
- Y broses y mae grwpiau ecosystemau Cymru'n ei defnyddio i fwydo i'r strategaeth Bioamrywiaeth a disgwyliadau'r Undeb Ewropeaidd.
- Cyflenwi bioamrywiaeth yng Nghymru
- Rôl grwpiau ecosystemau a bwydo i mewn i'r bwrdd biostat
- Fforwm polisi adnoddau naturiol

Nodiadau o'r drafodaeth gyffredinol:

- Bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd cyfrifoldeb am swyddogaeth dyfarnu grantiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Bydd *Cronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau* ar gael eleni, ond ar sail 2 filiwn dros gyfnod o 2 flynedd.
- Mae angen cynhyrchu tystiolaeth o'r bylchau yn yr ymchwil.  Gofynnodd y gweithdy academyddion am fwy o archwilio problemau a'r hyn sydd angen ei wneud.
- Rhaglen waith ar gyfer 2013/2014: caiff y meysydd â blaenoriaeth eu drafftio o dan 'unrhyw fater eraill'.
- Bydd fforwm rhanddeiliaid rhywogaethau goresgynnol tramor yn cael ei gynnal ym mis Mai; ni phenderfynwyd eto ar y cynnwys.
- Mae'n bosib y bydd Bil yr Amgylchedd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod angen i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) newydd ganolbwyntio ar wasanaethau ecosystem.  Gallai fod angen newid sut mae SoDdGA presennol yn cael eu rheoli a chynnwys rheoli tirwedd ar gyfer rhai cynefinoedd bach ond gwerthfawr nas dynodwyd.

**Camau gweithredu:**

**JB** i gylchredeg taenlen o brosiectau a ffurflenni i'w rhoi ar y wefan.  Dylid dychwelyd y rhain at THE a JB.

**HJ** i anfon neges e-bost Tracey Lovering ynglŷn â manylion aelodaeth at Janet i'w diweddaru a'u cylchredeg.
**HJ** i gylchredeg y cyflwyniad ar Ddull Cymru o Reoli ar Lefel yr Ecosystem.

**5. Cronfa Cydnerthedd Ecosystemau**

- Bydd hon ar gael eto eleni, â dwywaith cymaint o arian.
- Bydd y grantiau'n para dwy flynedd, fel bod modd arloesi mwy a goresgyn problemau e.e. cynnal arolygon a gwneud gwaith ar afonydd lle mae cyfyngiadau amser yn berthnasol.
- Bydd y gronfa ar agor cyn hir, ond bydd y cyfnod ar gyfer ceisiadau yn fyr. Bydd mantais gan brosiectau 'parod i fynd'.
- Mae CCGC wedi ceisio rhoi mwy o strwythur i'r broses, ond dylai canllawiau cliriach fod ar gael.
- Bydd y meini prawf a'r symiau sydd ar gael yn debyg i'r llynedd h.y. 10K-20K.
- Mae'n debygol y bydd y peryglon sydd ynghlwm â phrynu tir yn cael eu hystyried yn ormodol.
- Mae cysylltiadau â phrosiectau ymchwil yn debygol o ychwanegu at werth ceisiadau.
- Ariannwyd tri phrosiect sy'n berthnasol i'r Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw y llynedd, sef Pond Conservation, Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren a Sefydliad Afon Gwy ac Afon Wysg. Mae'r rhain yn mynd rhagddynt.

**6. Cylch Gorchwyl**

Nid oes adnoddau gan grwpiau ecosystemau i weithredu strategaethau – swyddogaeth CCGC, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac AAC yw hyn ar hyn o bryd, h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl 1 Ebrill 2013.

**7. Adroddiad Cyswllt Amgylchedd Cymru, Gwerthfawrogi ein Dŵr Croyw**

- Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr ond roedd yn brin o gefnogaeth oherwydd diffyg ymwybyddiaeth.
- Canolbwyntio ar afonydd yn bennaf.
- Cynigiwyd gwasanaethau'r Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw ar gyfer cyhoeddiadau pellach trwy Russell Hobbs.
- Awgrymwyd y dylai Pond Conservation ymuno â'r Cyswllt (THE).
- Noddwyd gan Dafydd Ellis Thomas, ac mae'n helpu i lywio polisi ac adroddiadau byrion ar faterion polisi.
- Dogfen gyhoeddus ar gael drwy'r wefan.

**Cam gweithredu: JB** i anfon neges e-bost at Sean Mc Hugh i roi dolen ar gyfer y ddogfen hon ar ran Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw y wefan.

**8. Adolygiad o Ymgynghoriad Ynni Dŵr AAC**

- Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynglŷn â'r canllawiau ar gyfer cynlluniau ynni dŵr lle mae i'r golofn ddŵr wahaniaeth uchder mawr. Bydd CNC yn ystyried barn rhanddeiliaid, a bwrdd CNC fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

- Mae tariffau hael ar gael.
- Mae arian ar gael i liniaru'r rhwystrau i bysgod mudol.
- Mae pryderon gan y grŵp ynglŷn ag adeiladu coredau na ellir eu pasio.
- Bydd CCGC yn ymateb i'r dogfennau.

**9. Diweddariad ynglŷn â Rhywogaethau Goresgynnol Tramor**

- Mae cynllun Llwybrau cais LIFE yn cynnwys crancod menigog, ond ni fydd yn cael ei ariannu gan LIFE. Mae'n bosib y caiff arian cyfatebol o ffynhonnell arall.
- Bydd y rhestr o blanhigion dŵr a fydd yn cael eu gwahardd o'r flwyddyn nesaf ymlaen ar gael cyn hir.

**10. Unrhyw Faterion Eraill**

**10.1 Materion sy'n deillio o 2:**

- Mae **ESI** yn cael ei dreialu yng Nghymru. Mae'n mesur siltio ac yn cynnwys mynegai sensitifrwydd ar gyfer amryw dacsonau. Mae gan Simon Evans bryderon ynglŷn â gwaddodion ar afon Gwy ac afon Wysg a gellid ychwanegu hynny at y drafodaeth. Mae'n ymddangos mai amaethyddiaeth yw'r brif ffynhonnell, ac mae'n bosib y gellid mynd i'r afael â hynny drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.
- **Dikerogammerus villosus**: Mae diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ynglŷn â phroblemau yn ymwneud â'r rhywogaeth hon, yn enwedig ymhlith pysgotwyr. Nid yw llawer o bysgotwyr wedi gweld y daflen 'Sych a Gwlyb'; ymddengys mai at ganŵ-wyr yr anelir y daflen yn bennaf.
- Bydd **Dŵr Cymru** yn dosbarthu rhestr o ddigwyddiadau llygredd a mynegai llygredd bob dau fis. *Maent yn bwriadu penodi Rheolwr Llygredd yn y dyfodol agos.*(**DR**). Byddai gwell cyfathrebu rhwng Dŵr Cymru ac AAC yn fanteisiol.

**10.2 Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Angen canllawiau ar gyfer ceisiadau am arian o'r gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau (costau staff, monitro).
- Ehangu cwmpas y cyfarfod trwy wahodd ystod ehangach o unigolion. Gallai cynnal y cyfarfod yng Nghaerdydd helpu gyda phresenoldeb.
- Mae angen darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â'r hyn y mae'r grŵp yn ei wneud.
- Datblygu cysylltiadau ar Borth Bio Cymru, monitro canllawiau, dewis eitemau perthnasol o blith y rhai sydd ar gael.

**Camau gweithredu:**

**THE** i ymgynghori â Julia ynglŷn ag ariannu'r Gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau.
**THE** i drefnu mapiau

**10.3 Diweddariad gan Pond Conservation**

- Wrthi'n ystyried hyrwyddo ffermio sy'n ystyriol o ddŵr yng Nghymru.
- Posibilrwydd o ddatblygu prosiectau dŵr croyw mewn Parciau Cenedlaethol, gan weithio gyda thirfeddianwyr ac addysg gymunedol.

- Ystyried newid ffocws i ganolbwyntio ar ddŵr croyw a newid yr enw i Freshwater Conservation.
- Mae Llangors yn safle â blaenoriaeth uchel mewn Ardal Cadwraeth Arbennig, ond mae problemau ag ansawdd y dŵr yno. Gallai fod angen swyddog prosiectau i gydlynu, a cheisio am arian o gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y prosiect.
- Mae taflenni pecyn cymorth wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg a gellir cael gafael arnynt ar y brif wefan pecynnau cymorth.
- Gofynnodd **EG** am restr o gyfeirnodau grid ar gyfer pyllau dŵr sy'n flaenoriaeth o ran adolygu'r cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth, ynghyd â rhesymau am eu statws fel blaenoriaeth e.e. rhestr o rywogaethau.
- Mae **AB** yn gadael ei swydd ac ni fydd neb yn cymryd ei le. Hoffai Pond Conservation barhau i gael eu cynrychioli ar faterion sy'n ymwneud â Chymru, ond mae'r sefyllfa'n ansicr ar hyn o bryd.

**Camau gweithredu:**
**AB** i gopïo'r rhestr o gyfeirnodau grid a'r rhesymau pam eu bod yn flaenoriaeth i Hugh McHugh.
**JB** i newid cynrychiolydd Pond Conservation i Jeremy Biggs neu Pascal Nicolet.

### 10.4 Pryfed Gwellt
Cysylltu â **DR** i gael ein rhoi mewn cysylltiad â Stuart Croft a'r Cofnodwr Cenedlaethol Ian Wallace, a fydd yn darparu tiwbiau samplau ar gyfer y prosiect cofnodi.
**Camau gweithredu:**
**DR** i anfon gwybodaeth at **JB** i'w chylchredeg ymhlith y grŵp ac i Cofnod.

### 10.5 Adroddiad Monitro Llynnoedd
Mae hwn bellach ar gael ac mae'n cynnwys data ar blanhigion a chemeg am 25 o lynnoedd yn yr ucheldir. Bydd copïau electronig ar gael maes o law.
**Camau gweithredu: THE** i anfon copi ymlaen at **JB** i'w gylchredeg.

### 10.6 Adroddiadau Erthygl 17
- Rhan o adroddiad bob 6 mlynedd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Rhywogaethau Atodiad 2/3/5, gan gynnwys pysgod.
- Y tri phrif baramedr yw:
  - Dosbarthiad
  - Poblogaeth/ardal
  - Cynefin/rhywogaeth
- Mae ymgynghoriad sy'n cynnwys Scottish Natural Heritage, Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon yn yr arfaeth a dylai orffen tua chanol mis Mai.

### 10.7 Diweddariad Canllawiau Dŵr Coedwig
Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi ymgynghori â CCGC ac wedi cael ymateb ffafriol.

### 11. Dyddiad y cyfarfod nesaf:
**Cam gweithredu: JB** i osod meetomatic i drefnu dyddiad ym mhythefnos cyntaf mis Gorffennaf a bwcio ystafell yn Nhŷ Cambria yng Nghaerdydd.